ATODLEN 6

Bwydydd anifeiliaid

# RHAN 1

## Cyfyngiadau ar fwydo proteinau i anifeiliaid

### Gwahardd bwydo protein anifeiliaid i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil

**2.**—(1) At ddibenion Erthygl 7(2) o, a phwynt (a) o Ran I o Atodiad IV i Reoliad TSE y Gymuned mae'n dramgwydd—

(a) bwydo i unrhyw fochyn, dofednod, ceffyl neu unrhyw anifail a ffermir ac nad yw'n cnoi cil;

(b) cyflenwi i'w fwydo i unrhyw anifail o'r fath; neu

(c) ganiatáu i unrhyw anifail o'r fath gael mynediad at,

unrhyw beth y mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas ag ef.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), mae'r gwaharddiad yn is-baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â—

(a) protein anifeiliaid wedi'i brosesu;

(b) gelatin sy'n tarddu o anifail cnoi cil;

(c) cynhyrchion gwaed;

(ch) protein hydrolysedig;

(d) ffosffad deucalsiwm a ffosffad tricalsiwm sy'n tarddu o anifeiliaid;

(dd) bwydydd anifeiliaid anwes sy'n cynnwys protein anifeiliaid; ac

(e) bwydydd amrwd ar gyfer anifeiliaid anwes, a gyfansoddir o brotein anifeiliaid.

(3) Nid yw'r gwaharddiad yn is-baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag—

(a) y protein a nodir ym mhwynt A(a) o Ran II o Atodiad IV i Reoliad TSE y Gymuned;

(b) blawd pysgod (a bwydydd anifeiliaid sy'n ei gynnwys) sydd wedi eu cynhyrchu, eu labelu, eu cludo a'u storio yn unol â phwynt B o'r Rhan honno;

(c) ffosffad deucalsiwm a ffosffad tricalsiwm (a bwydydd anifeiliaid sy'n eu cynnwys) sydd wedi eu cynhyrchu, eu labelu, eu cludo a'u storio yn unol â phwynt C o'r Rhan honno;

(ch) cynhyrchion gwaed sy'n deillio o anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil(a bwydydd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion o'r fath) ac wedi eu cynhyrchu, eu labelu, eu cludo a'u storio yn unol â phwynt D o'r Rhan honno;

(d) yn achos bwydo i bysgod, blawd gwaed sy'n deillio o anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil (a bwydydd anifeiliaid sy'n cynnwys blawd o'r fath) ac wedi eu cynhyrchu, eu labelu, eu cludo a'u storio yn unol â phwynt D o'r Rhan honno; a

(dd) cnydau gwraidd a chloron (a bwydydd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion o'r fath) y canfuwyd sbigylau esgyrn ynddynt, os awdurdodir hwy gan Weinidogion Cymru yn dilyn asesiad risg yn unol â phwynt A(d) o'r Rhan honno.

(4) Yn y paragraff hwn mae "protein" ("*protein*") yn cynnwys unrhyw fwydydd anifeiliaid sy'n cynnwys protein anifeiliaid.

(5) Mae'n dramgwydd dod ag unrhyw beth a waherddir gan y paragraff hwn, ac eithrio bwyd a fwriedir i'w fwyta gan bobl, i unrhyw fangre lle cedwir anifeiliaid fel a nodir yn is-baragraff 1(a), neu fod â meddiant o'r cyfryw beth mewn mangre o'r fath, ac eithrio—

(a) yn unol â pharagraff 3; neu

(b) pan awdurdodwyd hynny gan arolygydd a phan fo mesurau addas wedi eu sefydlu i sicrhau na chaiff anifeiliaid fel a nodir yn is-baragraff (1)(a) fynediad ato.